ARFOR CREU GWAITH – CEFNOGI'R IAITH

# RHAGLEN ARFOR –

## Canllawiau Cyhoeddusrwydd Cymunedau Mentrus yng Ngwynedd

**Gan eich bod yn derbyn cefnogaeth drwy Gronfa Cymunedau Mentrus fel rhan o Rhaglen ARFOR mae na ofyniad i chi rhoi cydnabyddiaeth i'r gefnogaeth ariannol hyn.**

- Os fydd cyfle am sylw cyhoeddusrwydd sylweddol e.e. lansio cynnyrch Newydd; agor adeilad Newydd ayb mae ofyniad I ni weithio gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru I adnabod cyfleoedd ar gyfer unrhyw ymweliadau gan Gweinidogion; dyfyniadau gan Gweinidogion ayb.  Mae angen canitau hyd at 20 diwrnod I gael cymeradwyaeth argaeledd neud dyfyniadau Gweinidogion. .

- Yr ydych yn cytuno bod hawl gennym, hyd at 5 mlynedd o ddyddiad taliad olaf unrhyw gyllid gynnwys manylion eich sefydliad a'ch busnes chi, a'r Cyllid a'r Dibenion mewn deunyddiau hyrwyddo ar gyfer Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru, ac yr ydych yn cytuno ymhellach i gydweithredu â cheisiadau rhesymol gennym ni at y diben o baratoi deunyddiau o'r fath.

| CYDNABYDDIAETH NAWDD – CYHOEDDUSRWYDD (logos, datganiadau ysgrifenedig?) |
|---|

Rhaid i bob dderbyniwr grant a chontractwr sy'n derbyn cefnogaeth Rhaglen ARFOR sicrhau bod logo safonol Rhaglen ARFOR a Llywodraeth Cymru yn cael ei arddangos ym mhob deunydd cyfathrebiad a dogfennau sy'n wynebu'r cyhoedd sy'n ymwneud â gweithgaredd prosiect - gan gynnwys deunydd print a chyhoeddiadau, hyd at ddeunyddiau digidol ac electronig.

Mae'n rhaid defnyddio'r stribed logos  canlynol:

Mae'r prosiect hwn yn cael ei ariannu gan Rhaglen ARFOR a ariennir gan Lywodraeth Cymru

This project is funded by the ARFOR Programme funded by Welsh Government

Gall ei ganfod yma - Rhaglen ARFOR (llyw.cymru), ynghyd ag opsiynau du a gwyn

Ochr yn ochr â defnyddio logo Rhaglen ARFOR, rhaid i ddarparwyr prosiectau hefyd sicrhau bod gwefannau a deunyddiau printiedig yn cynnwys cyfeiriad amlwg at y gefnogaeth gan Rhaglen ARFOR. Dylai hyn gynnwys y testun a ganlyn:

*'Mae'r prosiect hwn wedi derbyn cefnogaeth gan Rhaglen ARFOR sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru'* .

Lle bo hynny'n ymarferol, dylai cyflawnwyr prosiectau hefyd gynnwys dolen i wefan Rhaglen ARFOR www.rhaglenarfor.cymru , a chynnwys y testun canlynol (y mae'n rhaid ei ddefnyddio ar gyfer nodiadau golygyddol ar mewn datganiadau i'r wasg):

*Mae Rhaglen ARFOR yn cael ei ariannu gan Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/25. Nod Cymunedau Mentrus yw Datblygu Gofodau Cymraeg sy'n cynnig amgylchedd naturiol i bobl weithio a chymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg. Am ragor o wybodaeth, ewch www.rhaglenarfor.cymru*

Dylid ystyried gweithgareddau cyfryngau cymdeithasol a chysylltiadau cyhoeddus ar gyfer lansio unrhyw brosiect, ac wedi hynny wrth gyhoeddi cerrig milltir a chyflawniadau allweddol. Mi ddylai hefyd sicrhau eich bod yn trafod gyda'ch Awdurdodau Lleol i adnabod unrhyw gyfleoedd i gydweithio ar unrhyw lansiad. Rhaid i ddatganiadau i'r wasg gynnwys cyfeiriad clir ac amlwg at Cymunedau Mentrus, Rhaglen ARFOR a chefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru ym mhrif gorff y datganiad i'r wasg.

Rhaid defnyddio nodiadau i olygyddion hefyd, fel y nodir uchod:

*'Mae [y prosiect hwn/Enw'r prosiect] wedi derbyn £[ROI SWM] gan Rhaglen ARFOR ariennir trwy Llywodraeth Cymru*

**Cyfryngau Cymdeithasol**

Wrth ddisgrifio neu hyrwyddo'r Gronfa neu'r prosiect a gefnogir, rhaid defnyddio'r hashnod canlynol –

| | | |
|---|---|---|
| #RhaglenARFOR | #CymunedauMentrus | #LlywodraethCymru |
| #CynnigCymraeg | #BwrlwmARFOR | #GwaithIaith |
| #CyngorGwynedd | #ffynianteconomaidd | #ffyniantieithyddol |
| #BusnesCymru | #ARFORGwynedd | |

## ryd i roi cydnabyddiaeth?

Rhaid i bob cyflawnwr prosiect hefyd osod sticer ARFOR a sticer Busnes@Gwynedd  mewn lleoliad sy'n yn hawdd i'r cyhoedd weld, fydd y rhain yn cael ei dosbarthu gan eich Awdurdod Lleol.

Yn ddibynnol ar y prosiect sydd wedi cael ei ariannu, mi fyddai'n wych allu gael cydnabyddiaeth ar gychwyn unrhyw waith, ac wedyn pan fydd cerrig milltir yn cael ei gyrraedd ag ar ddiwedd y prosiect.

O bosib fydd y prosiect yn un bach felly cydnabyddiaeth ar ddechrau a diwedd y prosiect.

## Lluniau

Bydd defnyddio lluniau gwych yn rhoi'r cyfle gorau i'ch postiadau gael sylw. Defnyddiwch unrhyw beth sy'n dangos gwerth y gwaith anhygoel rydych chi'n ei wneud.

## Bwrlwm ARFOR

Mi fydd disgwyliad i chi fod yn rhan o unrhyw ymgyrchoedd marchnata sy'n ymwneud a'r ffrwd gwaith Bwrlwm ARFOR h.y. ymgyrch sy'n rhoi sylw i busnesau sy'n defnyddio y Gymraeg; codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg; cynyddu gweledEdd y Gymraeg ayb.